Ffonau talu cyhoeddus

Datganiad a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu, 20 Rhagfyr 2002

Mae'r datganiad hwn yn nodi polisi presennol Oftel ar ddarparu ffonau talu yn y DU.

Mae'n dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd y llynedd.

D.1 Mae darparu Blychau Ffôn Cyhoeddus (PCBs) ledled y DU yn rhan hanfodol o Rwymedigaethau Gwasanaeth Byd-eang (USO) y DU. Fel y Darparwyr Gwasanaeth Byd-eang penodedig o dan gyfundrefn bresennol y DU, mae'n ofynnol i British Telecommunications ('BT') a Kingston Communications (yn ardal Hull) ddarparu mynediad rhesymol i Flychau Ffôn Cyhoeddus am bris fforddiadwy ledled eu hardal drwyddedig. Mae yna weithredwyr PCB eraill sydd hefyd yn darparu PCBs yn fasnachol.

D.2 Oherwydd newid cyflym yn y farchnad PCB, a achoswyd gan gyfraddau uwch o bobl yn berchen ar ffôn symudol, ymgynghorodd Oftel ar y ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â rheoli PCBs yn y dyfodol. Mae'r Datganiad hwn ar ffonau talu cyhoeddus (y 'Datganiad') yn nodi casgliadau Oftel mewn perthynas â phob un o'r cynigion a wnaed yn y ddogfen ymgynghori.

Casgliadau allweddol

D.3 Mae darparu digon o PCBs mewn ardaloedd trefol, cytrefol a gwledig yn amcan Gwasanaeth Byd-eang hanfodol a darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth Ewropeaidd, yn nhrwyddedau BT a Kingston Communications, ac yn y canllawiau presennol y cytunwyd arnynt rhwng Oftel â BT.

D.4 Yng ngoleuni'r USO a'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ddogfen ymgynghori, prif gasgliad Oftel yw y dylid mabwysiadu'r canllawiau diwygiedig ar adleoli a chael gwared ar PCBs, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori ac yn y Datganiad hwn yn Atodiad A, o dan Amod 42 o drwydded BT a Kingston Communications. Mae'r canllawiau diwygiedig yn sicrhau bod angen isafswm lefel y rheoliad ble bydd BT neu Kingston Communications yn cynnig cael gwared ar y gwasanaeth PCB yn gyfan gwbl o safle penodol, ond yn cadw at y gyfundrefn hyblyg bresennol er mwyn cael gwared ar PCBs unigol ble y bydd gwasanaeth PCB yn parhau.

D.5 Mewn rhai achosion mae'r canllawiau diwygiedig wedi cynyddu rheoliad (er enghraifft, drwy ymestyn y cyfnod y gall ymgynghorwyr ymateb i'r gwaith arfaethedig o gael gwared ar flychau), mewn rhai eraill fe'u diwygiwyd er mwyn gwneud y rhwymedigaethau yn fwy eglur. Felly er y gall nifer cyffredinol y PCBs ddisgyn o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf, dylai'r canllawiau diwygiedig alluogi targedu PCBs yn well i'r grwpiau a'r ardaloedd hynny sydd angen PCBs fwyaf. Er y gellir cael gwared ar PCBs unigol o

ganlyniad i amodau'r farchnad, bydd Oftel yn parhau i adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth o PCBs.

D.6 Bydd Oftel hefyd yn parhau i sicrhau y dylai BT osod PCBs ychwanegol ar sail angen cymdeithasol ble y caiff y meini prawf gwerthuso perthnasol eu cwrdd. Bwriedir hefyd ymestyn y canllawiau ar osod PCBs ar sail angen cymdeithasol i Kingston Communications.

D.7 Yn sgîl amodau newidiol y farchnad, mae Oftel yn ystyried y dylai darparwyr PCB sy'n amodol i'r USO ddarparu gwybodaeth fwy rheolaidd a chynhwysfawr mewn perthynas â'r ddarpariaeth PCBs i Oftel. Y bwriad felly yw mabwysiadu'r canllawiau diwygiedig gan BT a Kingston Communications gan gynnwys rhwymedigaeth ar y ddau weithredydd i ddarparu gwybodaeth i Oftel bob chwe mis ar nifer y ceisiadau am PCBs newydd ac ar nifer y PCBs sydd wedi'u hadleoli neu a waredwyd, gyda rhesymau ym mhob achos.

D.8 Bwriad Oftel yw y caiff y canllawiau ar y cyfan, gan gwmpasu cael gwared ar PCBs a'u hadleoli a gosod PCBs ar sail angen cymdeithasol, eu cyflwyno i'w hymgorffori yn y gyfundrefn newydd (a drafodir yn fwy manwl isod).

D.9 Mae Oftel yn cefnogi'r rhwymedigaethau a osodwyd ar weithredwyr o dan Reoliadau Telathrebu (Gwasanaethau ar gyfer Pobl Anabl) 2000 yn llawn, ac ym mis Tachwedd 2002 ysgrifenwyd at bob gweithredydd PCB yn gofyn iddynt adrodd yn ôl ar eu cydymffurfiad â'r rhwymedigaethau hynny (fel y cyflwynwyd gan Amod 10 o'u trwyddedau). Bydd Oftel yn parhau i sicrhau y caiff gwasanaethau PCB eu datblygu, mewn ymgynghoriad a rhanddeiliaid Oftel, mewn ffordd sy'n ystyried buddiannau defnyddwyr ag anableddau.

D.10 Ni chaniateir rhwystro galwadau sy'n dod i mewn i ffonau talu cyhoeddus o dan y rheolau presennol. Cynigiodd Oftel y gallai fod yn ddymunol mewn rhai amgylchiadau. Daeth Oftel i'r casgliad y dylid caniatáu rhwystro galwadau sy'n dod i mewn ar nifer cyfyngedig o PCBs a gaiff eu heffeithio gan ymddygiad sy'n aflonyddu. Ar yr un pryd, mae Oftel yn cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Gartref a gweithredwyr telathrebu ar y mater unigol o'r ffordd orau o fynd i'r afael â phroblem cardiau puteiniaid mewn PCBs.

D.11 I orffen, bwriad Oftel yw mabwysiadu ei gynnig i gyflwyno'r Tâl Mynediad i Ffôn Talu i gynnwys pob gweithredydd ffôn talu cymwys er mwyn sicrhau'r mynediad mwyaf posibl i wasanaethau rhadffon.

Y gyfundrefn newydd

D.12 Bydd cyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio telathrebu o 25 Gorffennaf 2003 ymlaen rhoi gofynion Cyfarwyddebau Ewropeaidd ar gyfathrebu ar waith, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2002. Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd dosbarthu ffonau talu yn newid rywfaint yn sgil cyflwyno'r gyfundrefn newydd. Bydd y dosbarthiad newydd yn ceisio sicrhau bod cyfres eglur ac wedi'i diffinio'n dda o ffonau talu yn amodol ar ofynion rheoleiddiol, fel y bydd darparu gwasanaethau ffôn talu a gwybodaeth wedi'u diogelu'n ddigonol o

dan y gyfundrefn newydd. Mae Atodiad C o'r Datganiad hwn yn amlinellu'r dosbarthiad presennol o ffonau talu yn fanwl a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â phob categori. Trafodir y dosbarthiad bwriadedig o dan y gyfundrefn newydd yn fwy manwl ym mhennod saith o'r Datganiad hwn, *Dosbarthiad newydd ffôn talu*.